Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanfarian**

**Ysgol Llanfarian**
**Llanfarian**
**Aberystwyth**
**SY23 4DA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/04/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Llanfarian

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Jade-Leigh Evans<br>Emma Bates |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual Insert<br>13 Mehefin 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Manual Insert<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo, yn hapus ac yn gyfforddus. Mae'r plant yn dechrau deall eu teimladau ac yn datblygu i fod yn sensitif i eraill. Maent yn dysgu sut i gydweithio, cymryd eu tro, rhannu ac maent yn datblygu ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu mewn amgylchedd sy'n ysgogol ac yn gyfeillgar i blant yn gyffredinol.

Mae'r staff gofal yn gwybod, yn deall ac yn diwallu anghenion unigol y plant. Mae'r staff gofal yn cynnig awyrgylch magwrus a gofalgar ac maent yn parchu ac yn hybu datblygiad pob plentyn.

Mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ei reoli'n gymharol dda ac maent yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi. Mae'r system ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r staff gofal ar waith ac mae'n diwallu anghenion sylfaenol yr aelodau o'r staff. Mae partneriaethau da â'r rhieni a gweithwyr gofal plant proffesiynol eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo arferion diogel ar y cyfan.

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r plant wedi ymlacio, ac maent yn hapus ac yn hyderus sy'n dangos eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Maent yn adnabod y staff a'r plant eraill yn dda, gan fynd at y staff i ofyn am help, sgwrsio yn ystod amser gweithgareddau a chwarae gyda'i gilydd yn braf.  Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft, dewis pa weithgareddau i chwarae â nhw a chyda phwy i eistedd yn ystod gweithgaredd.

Mae gan y plant ymdeimlad da o berthyn.  Maent yn gyfarwydd â'r trefniadau, hyd yn oed o ystyried yr arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Maent yn defnyddio'r hylif diheintio dwylo ar yr adegau priodol ac yn helpu i roi'r teganau i gadw ar ôl eu defnyddio. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff gofal; maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt yn ystod amser gweithgareddau a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda nhw yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae, mae ganddynt ddiddordeb mewn gweithgareddau ac yn llawn cyffro amdanynt ac maent yn canolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei wneud am gyfnod sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu.  Roedd un plentyn wedi llwyr ymgolli ar y trawst cydbwyso am gyfnod sylweddol wrth chwarae yn yr awyr agored. Mae'r plant yn symud yn rhydd o un ardal i'r llall naill ai dan do neu yn yr awyr agored, ond nid ydynt yn symud yn annibynnol o'r ardal dan do i'r ardal awyr agored nac i'r gwrthwyneb.

Mae'r plant yn dysgu sut mae eu teimladau a'u hemosiynau yn effeithio arnyn nhw eu hunain neu eu rhyngweithio â phobl eraill, a sut beth yw ymddygiad sy'n dderbyniol o safbwynt cymdeithasol.  Mae'r plant yn canmol ei gilydd pan fyddant yn cael sticeri am waith neu ymddygiad da.  Clywsom un plentyn yn dweud *"Well done, let me see your sticker"* (Da iawn, gad i mi weld dy sticer di) wrth blentyn arall.

Mae'r plant yn datblygu'n dda ac maent yn cael rhai cyfleoedd i fod yn annibynnol. Maent yn datblygu amrywiaeth o sgiliau o chwarae â'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael iddynt, ac o wneud penderfyniadau i sgiliau echddygol bras a manwl. Mae'r mwyafrif o'r plant yn edrych ar ôl eu heiddo eu hunain ac yn ei barchu, gan roi eu poteli yfed i ffwrdd a thacluso ar ôl eu hunain.  Gall y mwyafrif o'r plant ddefnyddio'r toiled yn annibynnol ac mae'r rhai eraill sydd angen cymorth yn gwybod y dylent ofyn i'r staff am help.

Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn setlo'n dda ac yn gyflym.

## Gofal a Datblygiad

Roedd y staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cydweithio'n dda i roi arferion hylendid a threfniadau glanhau cadarnhaol ar waith, sy'n helpu i sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach, yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r rhain yn cynnwys arferion glanhau trwyadl drwy gydol y dydd. Caiff yr adnoddau eu defnyddio am yn ail. Maent yn glanhau ac yn diheintio eu cyfarpar yn ddyddiol/wythnosol yn ogystal â chyfyngu ar yr adnoddau sydd ar gael.

Mae'r staff gofal yn gwneud yn siŵr bod y plant yn defnyddio gel gwrthfacterol i ddiheintio eu dwylo cyn amser byrbryd ac amser cinio. Mae'r trafodaethau â'r staff gofal yn dangos eu bod yn deall yr angen am arferion diogelu da, ond nid oeddent yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Prevent. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar y Ddyletswydd Prevent yn dilyn yr ymweliad arolygu. Mae'r staff gofal yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau fel yr amlinellir yn y polisi. Yn ystod yr ymweliad arolygu, dim ond un aelod o'r staff oedd â thystysgrif cymorth cyntaf pediatrig cyfredol. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn dilyn yr ymweliad arolygu. Mae'r staff gofal yn cofnodi manylion damweiniau a digwyddiadau yn gyson, ac mae'r rhieni'n llofnodi'r rhain.

Mae pob aelod o'r staff gofal yn deall y polisi ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad ar waith yn gyson. Maent yn ymyrryd yn briodol ac yn ddigynnwrf pan fydd anghytuno rhwng y plant. Mae'r staff gofal yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gynnes, gyfeillgar a thyner. Maent yn canmol y plant am eu hymdrechion drwy ddefnyddio iaith gadarnhaol ac yn eu hannog i fod yn gwrtais ac ymarfer dweud *'please'* ("os gwelwch yn dda") a *'thank you'* ("diolch").

Mae'r staff gofal yn ymddwyn mewn ffordd gynnes a chyfeillgar gyda'r plant ac maent yn fodelau rôl cadarnhaol. Gwelsom y staff gofal yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn annog rhyngweithio cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn canmol y plant yn gyson ac yn eu hannog i chwarae a chydweithio â'i gilydd. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Clywsom ryngweithio rhwng y staff gofal a'r plant a oedd yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd. Gwelsom fod y staff yn ymateb ac yn gorfforol gariadus gyda'r plant; roeddent yn rhoi maldod iddynt ar ôl iddynt gwympo ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn diwallu eu hanghenion sylfaenol.

Dangosodd y staff, drwy drafod â nhw, eu bod yn adnabod y plant yn dda. Mae'r staff gofal yn diwallu anghenion unigol y plant ac yn canolbwyntio ar ddatblygu ystod sgiliau pob plentyn. Maent yn dechrau nodi anghenion ychwanegol y plant ac yn defnyddio rhai o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Mae'r staff gofal yn cadw cofnod arsylwi sy'n nodi manylion datblygiad y plant, ond nid oeddent yn dyddio pob cofnod.

Mae'r staff gofal yn rhoi arferion glanhau a hylendid priodol ar waith. Maent yn rhoi gweithdrefnau *'Mesurau diogelu mewn lleoliadau gofal plant'* Llywodraeth Cymru ar waith yn briodol ac maent yn dilyn amserlen lanhau ar gyfer tasgau glanhau dyddiol, wythnosol a

misol. Mae'r staff gofal yn glanhau arwynebau'n rheolaidd ac yn gwisgo menig a ffedogau wrth weini bwyd ac wrth ddiwallu anghenion personol y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu byrbrydau iach yn ystod y sesiynau ac er nad yw'n cynnig prydau poeth mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn cydweithio'n agos â'r rhieni i annog bwyta'n iach.

## Yr Amgylchedd

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan.  Mae'r staff yn rheoli mynediad i'r safle drwy sicrhau bod y drws ar glo.  Mae ffens o gwmpas yr ardal awyr agored a defnyddir giât i ddod i mewn a mynd allan.  Mae'r staff hefyd yn cofnodi gwaith cynnal a chadw ac yn cadw rhestr o ymwelwyr â'r cylch meithrin.  Mae'r holl wiriadau diogelwch ar yr adeilad a'r cyfarpar yn gyfredol a chaiff cofnodion eu cadw'n ddiogel.  Roedd gan y person â chyfrifoldeb rai asesiadau risg cyffredinol ar waith yn ystod yr ymweliad arolygu.  Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant, er enghraifft cynorthwyo'r plant iau ar y trawst cydbwyso yn yr awyr agored.  Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân, ond mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd.  Roedd yr ardal paratoi bwyd yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus, ond nid oedd y flanced dân i'w gweld.

Mae'r person â chyfrifoldeb wedi datblygu'r ardal awyr agored er mwyn darparu gofod dysgu a rhai cyfleoedd i'r plant archwilio.  Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cynnwys chwarae adeiladu, datblygiad corfforol drwy reidio ar deganau a chasgliad o adnoddau corfforol, gan gynnwys trawst cydbwyso, cylchoedd, peli a chyfarpar dringo, yn ogystal â chwarae synhwyraidd â dŵr, tywod a'r gegin fwd.

Darperir gofal mewn un brif ystafell a chaiff yr holl adnoddau chwarae a dysgu eu storio ar lefel isel, sydd o fewn cyrraedd y plant. Ar rai o'r droriau storio mae labeli lluniau a chliwiau ar ffurf geiriau i helpu'r plant i ddewis.  Mae'r amgylchedd yn cynnwys dodrefn a chyfarpar o faint addas i gefnogi annibyniaeth y plant.  Er enghraifft, bwrdd a chadeiriau o faint addas i blant, a chyfleusterau er mwyn helpu'r plant i ddysgu sut i ddefnyddio'r toiled.  Mae'r toiledau a'r ardaloedd newid cewynnau'n rhoi preifatrwydd ac urddas i'r plant.  Mae'r ystafell chwarae yn storio amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.  Mae'r rhain yn cynnwys posau, gemau a chyfarpar TGCh.  Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg, er enghraifft drwy lyfrau ac arddangosiadau o liwiau, diwrnodau'r wythnos, rhifau a geirfa Gymraeg.

Prin yw'r cyfarpar a'r adnoddau oherwydd COVID-19, ac mae rhai o'r ardaloedd chwarae yn wag ar y cyfan, megis yr ardal chwarae rôl.  Mae gan y plant ardal lle maent yn eistedd gyda'i gilydd ar gyfer amser byrbryd ac amser cinio, gan ei wneud yn ddigwyddiad cymdeithasol.  Mae cegin ddynodedig yn yr ystafell, a gall y plant sydd angen cysgu neu gael amser tawel wneud hynny ar glustogau a matiau llawr.

## Arwain a Rheoli

Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn adlewyrchu ymarfer cyfredol ar y cyfan.  Gwnaeth ddiweddaru'r datganiad o ddiben yn ystod y broses arolygu ac mae bellach yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol.  Mae wedi gwneud gwelliannau yn dilyn y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf.  Mae gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bellach ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff.  Roedd y cofnodion a gadwyd yn unol â'r rheoliadau, ond roedd ffotograff o un aelod o'r staff a disgrifiadau swydd ar gyfer pob aelod o'r staff ar goll o ffeiliau'r staff.  Aed i'r afael â hyn yn ystod y broses arolygu.  Mae'r person â chyfrifoldeb wedi gwneud addasiadau i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a chanllawiau COVID-19, er enghraifft, ni all y rhieni ddod i mewn i'r adeilad ac mae'n rhaid iddynt wisgo masgiau y tu allan.  Mae gwybodaeth a chofnodion ar gael sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir.  Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau ei bod hi a'i staff yn rhoi'r rhain ar waith yn briodol, ac mae'n eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd.  Mae cofnodion y plant sy'n mynychu'r gwasanaeth yn drefnus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff gofal yn ymrwymedig i wella canlyniadau i'r plant a'r rhieni.  Maent wedi mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod eu harolygiad diwethaf bron i gyd.

Gwnaethom edrych ar yr adolygiad a'r adroddiad cyfredol o ansawdd y gofal ar gyfer 2020 i 2021.  Mae'r person â chyfrifoldeb yn mynd ati i gael adborth gan y staff, y plant a'r rhieni mewn perthynas â'r gwasanaeth. Drwy'r adborth hwn a thrwy gynnal trafodaethau â'i thîm, mae'n penderfynu ar newidiadau a gwelliannau a fydd o fudd i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant a sicrhau bod y staff yn addas.  Dywedodd yr aelodau newydd o'r staff eu bod yn teimlo bod y person â chyfrifoldeb yn eu cefnogi'n dda.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio rhithwir sy'n cefnogi'r staff i gyflawni eu rôl, ac i ddysgu a datblygu, a gellir trafod unrhyw broblemau o ran perfformiad a all godi.  Mae'r person â chyfrifoldeb yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol i oruchwylio tasgau a gweithgareddau'n effeithiol a chefnogi'r plant.

Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau bod y gofal mwyaf priodol yn cael ei roi i'r plant, ond nid oedd y rhieni wedi llofnodi pob ffurflen ganiatâd angenrheidiol. Cadarnhaodd y person â chyfrifoldeb fod hyn wedi'i wneud yn dilyn yr ymweliad arolygu.

Mae gan y person â chyfrifoldeb a'r staff gofal gydberthnasau cadarnhaol â’r rhieni. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a roddir. Dywedwyd eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy luniau ar dudalen Facebook breifat ac adborth ar lafar wrth gasglu eu plant.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. cynnal ymarferion tân rheolaidd

A2. dyddio holl gofnodion arsylwi'r plant

A3. sicrhau bod y flanced dân i'w gweld ar wal y gegin.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni | |
|---|---|
| Ffeiliau staff anghyflawn | Rheoliad 28 (2) (b) [ii] |
| Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Rheoliad 15 (1) (c)<br>Rheoliad 15 (1) (d) |
| Dim adolygiad o ansawdd y gofal | Rheoliad 16 (1) |
| Dim ond un aelod o'r staff sydd â thystysgrif cymorth cyntaf | Rheoliad 24 (2) (b) |

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Ni chaiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd | Rheoliad 38 (1) (e) |

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/09/2021